

Astudiaeth Achos

Accessible Caring Transport

Elusen cludiant cymunedol yw Accessible Caring Transport (ACT), wedi'i lleoli yn Aberpennar, De Cymru. Maent yn gwella gwasanaethau cludiant cyhoeddus trwy ddarparu cynllun bws mini/ceir hwylus, o ddrws i ddrws, ar gyfer unigolion a grwpiau o bobl sy'n agored i niwed gan roi blaenoriaeth i bobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl sy'n teimlo'n ynysig yn ardaloedd Cwm Cynon, Y Rhondda a Merthyr Tudful .

Sefydlwyd y gwasanaeth cyntaf ym 1989 i ddiwallu anghenion pobl oedrannus ac anabl oedd yn byw yng Nghwm Cynon a'r ardaloedd cyfagos. Ym 1998 daeth y sefydliad yn elusen, ac ehangodd Accessible Caring Transport gan weithio gyda phobl oedd yn teimlo'n ynysig a phobl ifanc oedd yn teithio ar gyfer hyfforddiant a gwaith i ddatblygu prosiectau ar eu cyfer a gwasanaeth Galw'r Gyrrwr ledled cymoedd Cynon a'r Rhondda. Gyda mwy a mwy o grwpiau ac aelodau unigol bob blwyddyn, mae ACT yn cael effaith enfawr ar eu cymuned. O'r 500+ o unigolion y maent yn eu cefnogi bob blwyddyn, mae llawer ohonynt yn teimlo'n ynysig ac mae ganddynt broblemau iechyd a/neu symudedd a byddent yn gaeth i'w cartrefi heb gymorth ACT. Does dim bysiau rheolaidd o amgylch yr ardal, felly mae ACT yn darparu cludiant hanfodol i apwyntiadau a digwyddiadau cymdeithasol neu ar gyfer tripiâu dydd ac ymweliadau â ffrindiau er mwyn helpu pobl i barhau'n egnïol ac i fod yn rhan o'u cymuned leol.

Cefnogi Gwasanaethau Iechyd

Yn ogystal â'r gwasanaethau Galw'r Gyrrwr rheolaidd y mae unigolion yn talu amdanynt yn uniongyrchol i gael cyrraedd apwyntiadau gyda'r meddyg teulu, yn yr ysbyty neu apwyntiadau iechyd eraill, mae ACT yn cynnig ystod o wasanaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd sy'n bwysig iawn i drigolion yr ardal ac i Fwrdd Iechyd Cwm Taf.

Cysylltwyd ag ACT ym mis Awst 2015 i drafod darparu cludiant ar ran Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, i godi cleifion o'u cartrefi a'u cludo i Uned Arennol Merthyr (MRUM) i gael triniaeth dialysis. Gyda thua 54 o gleifion yn cael eu cludo bob wythnos rhwng y cartref a'r ysbyty, mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal am chwe diwrnod yr wythnos ac mae'n allweddol o ran sicrhau bod gan y cleifion hyn wasanaeth cludiant hwylus a chefnogol sy'n mynd â nhw i'r apwyntiadau hanfodol hyn ac yn ôl gartref.

Mae yna nifer o sgil-ffeithiau i driniaeth dialysis. Mae blinder, pendro, a chrampiau cyhyrau yn gyffredin iawn, hyd yn oed i'r rhai sydd wedi bod yn gleifion arenol ers cryn amser. Mae ACT yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant trylwyr i'w gyrwyr a'u cynorthwyr teithwyr er mwyn sicrhau bod y cleifion hyn yn cael cymorth i deithio'n ddiogel. Oherwydd nad ydynt yn ceisio cynyddu elw na thorri amseroedd teithio i gynyddu capasiti, mae ACT yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan eu partneriaid yn y Bwrdd Iechyd am eu bod yn gallu darparu cludiant diogel a gofalgwr sy'n seiliedig ar anghenion ac yn rhoi'r cleifion yn gyntaf.

Heb y gefnogaeth hanfodol hon, byddai Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion cleifion sy'n defnyddio'r MRUM a byddai hynny'n arwain at ddirywiad sylweddol yn eu hiechyd a chynnydd yn eu hanghenion gofal. Mae gwasanaeth ACT yn allweddol wrth sicrhau bod y cleifion hyn yn aros gartref ac yn cymryd rhan yn eu cymunedau, yn hytrach na bod yn sownd yn yr ysbyty ac mewn perygl o gael rhagor o gymhlethdodau.

Mae ACT hefyd yn darparu gwasanaeth gyda'r nos o ardal Cwm Cynon i Ysbyty'r Tywysog Charles ar gyfer ymweld gyda'r nos. Gall teithwyr ddefnyddio eu tocynnau bws, neu fel arall, codir tâl bach o £3.75. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cludiant o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac mae angen ei archebu ymlaen llaw, gydag o leiaf 24 awr o rybudd. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn rhedeg ers sawl blwyddyn ac mae'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gyngor Rhondda Cynon Taf, sy'n cludo 10 o bobl y dydd ar gyfartaledd.

Oherwydd lleoliad yr ysbyty a diffyg cludiant cyhoeddus gyda'r nos, os nad oes ffrind neu aelod o'r teulu'n gallu darparu cludiant, yr unig ddewis arall i rywun nad yw'n gyrru fyddai taith tacsï a byddai cost hynny'n rhwystr. I lawer o deithwyr ACT byddai hyn yn golygu na fyddent yn gallu ymweld â'r ysbyty mor aml, os o gwbl, a byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar y cleifion a'r ymwelwyr¹.

Mae Cludiant Cymunedol yn rhan hanfodol o'r arlwy cludiant sy'n tueddu i fod yn llai gweladwy ac adnabyddus i'r cyhoedd. I bobl ag anghenion symudedd ychwanegol neu sydd ar incwm isel, neu i rai sy'n byw mewn cymunedau sydd â rhwydweithiau cludiant cyhoeddus cyfyngedig, mae cludiant cymunedol yn allweddol i sicrhau bod pobl yn gallu cadw'n iach, yn egnïol ac yn rhan o'u cymunedau. Mae Accessible Caring Transport eisïau codi eu proffil fel corff fel y gallant dyfu a gwasanaethu rhagor o drigolion Cymoedd Rhondda a Chynon, gan barhau i ddarparu gwasanaethau cludiant hwylus a chynhwysol fel ag y gwnaethant dros y 30 mlynedd diwethaf.

¹ https://www.huffingtonpost.co.uk/entry/hospital-patients-never-have-visitors_uk_5d78b17e4b09342507becec?guccounter=1&guce_referrer=aHR0cHM6Ly93d3cuZ29vZ2xllmNvbS8&guce_referrer_sig=AQAAAFPrLlnAnKU-Nldrw6BEog_PcGAVRwJ4Icz8TkV0e3CWSYKYFtLZwUk5k2fi_3PyoD3tcmOOLVbIT4BwHHL6qPzsDQ9id12vZb3q5Q8mUSJEsLJfY6jJBwApJqQvXBQhD9Pv8Y5eSBbitnGkCmilZjW9zNOrhL7zd3HVKaA1K0